



YSGOL BRYNREFAIL

CYSTADLEUAETH MATHEMATEG Y GYMDEITHAS WYDDONOL GENEDLAETHOL



Dyma lun o William Lamb a Rhydian Price (y ddau ar y chwith), o flwyddyn 8, yn derbyn ei gwobrau gan Dr Gwyn Jones ar faes Eisteddfod yr Urdd wedi eu llwyddiant yn y gystadleuaeth mathemateg genedlaethol eleni.

Sefydlwyd y gystadleuaeth hon ar gyfer disgyblion uwchradd yn 1983 dan nawdd y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion blwyddyn 8 a bydd dros fil yn cystadlu yn flynyddol. Mae pob ymgeisydd yn derbyn tystysgrif a dyfernir gwobrau i'r rhai sydd wedi cyrraedd safon uchel iawn. Gyda chydweithrediad yr Urdd cyflwynir gwobrau yn flynyddol ar faes yr Eisteddfod.

Y mae'r teulu oll ym Mrynrefail yn ymfalchïo yn ei llwyddiant ond yn enwedig Miss Sioned P. Jones, sydd yn addysgu'r ddau, a'i chyd fathemategwyr yn yr Adran Mathemateg.

Hogia Brynrefs - da 'de